# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Awst 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

7 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

15 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a’r Gyllideb*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa amcangyfrifon sydd wedi cael eu gwneud o ostyngiad blynyddol cyfartalog (i) mewn termau arian ac fel canran, a (ii) mewn termau real ac fel canran o gyfanswm cyllideb DEL Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2011-12, 2012-13, 2013-14 a 2014-15. (WAQ56382)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa amcangyfrifon sydd wedi cael eu gwneud o ostyngiad blynyddol cyfartalog (i) mewn termau arian ac fel swm, a (ii) mewn termau real ac fel swm (mewn £) o gyfanswm cyllideb DEL Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2011-12, 2012-13, 2013-14 a 2014-15. (WAQ56383)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint y disgwylir i gyfanswm cyllideb DEL Cymru grebachu mewn termau real ac fel canran erbyn 2014-15 o'i gymharu â 2010-11. (WAQ56384)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nes y cyhoeddir canlyniad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Hydref, nid ydym yn gwybod setliad gwirioneddol ein cyllideb ar ôl eleni. Heb ffigurau cadarn, rydym wedi bod yn cynnal ein trafodaethau ar sail tybiaethau cynllunio. Mae'r rhain yn seiliedig ar asesiad gofalus o'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ni ymateb yn gyflym unwaith y bydd canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gael, ond mae'n golygu y gall y setliad gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau hyn. Ein harfer arferol yw cyhoeddi cynlluniau gwario am gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn mynd â ni i 2013-14 ac nid ydym yn cynllunio ein gwariant y tu hwnt i'r flwyddyn honno ar hyn o bryd. Darperir data isod felly ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14.

**Tybiaethau Cynllunio ar gyfer Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth y Cynulliad**

| | **Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhermau Arian Parod (£bn)** | **Newid Blynyddol yn Nhermau Arian Parod (£bn)** | | **Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl Prisiau 2010-11 (£bn)** | **Newid Blynyddol yn ôl Prisiau 2010-11** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 15.5 | | | 15.5 | |
| 2011-12 | 14.9 | -3.8% | | 14.6 | -5.6% |
| 2012-13 | 14.3 | -3.7% | | 13.8 | -5.8% |
| 2013-14 | 13.8 | -3.7% | | 12.9 | -6.0% |

| | **Newid yn Nhermau Arian Parod** | **Newid yn ôl Prisiau 2010-11** |
|---|---|---|
| **Lleihad Blynyddol ar Gyfartaledd** | -3.7% | -5.8% |

| | | |
|---|---|---|
| **Lleihad Blynyddol ar Gyfartaledd (£bn)** | -0.55 | -0.85 |
| **Newid dros Gyfnod** | -10.7% | -16.5% |
| **Newid dros gyfnod (£bn)** | -1.7 | -2.6 |

*Ffynhonnell: Datchwyddiant CMC Trysorlys Ei Mawrhydi adeg Cyllideb Mehefin 2010*

*Cymerwyd ffigurau cyllideb 2010-11 o Gyllideb Atodol Mehefin 2010*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint (mewn £) y disgwylir y bydd cyfanswm cyllideb DEL Cymru wedi gostwng erbyn 2014-15, yn is na'i frig yn 2009-10 mewn termau real. (WAQ56385)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa swm (mewn £) a chanran y bydd DEL cyfalaf Cymru yn disgyn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2014-15. (WAQ56386)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nes y cyhoeddir canlyniad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Hydref, nid ydym yn gwybod setliad gwirioneddol ein cyllideb ar ôl eleni. Heb ffigurau cadarn, rydym wedi bod yn cynnal ein trafodaethau ar sail tybiaethau cynllunio. Mae'r rhain yn seiliedig ar asesiad gofalus o'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ni ymateb yn gyflym unwaith y bydd canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gael, ond mae'n golygu y gall y setliad gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau hyn. Ein harfer arferol yw cyhoeddi cynlluniau gwario am gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn mynd â ni i 2013-14 ac nid ydym yn cynllunio ein gwariant ymhellach na'r flwyddyn honno ar hyn o bryd. Darperir data isod felly ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14.
Ar y tybiaethau hyn, rydym yn cynllunio ar y sail y gall cyfanswm cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Cymru leihau gymaint â £2.8 biliwn rhwng 2009-10 a 2013-14, yn ôl prisiau 2009-10.
O ran cyllidebau cyfalaf, rydym yn cynllunio ar y sail y gall cyfalaf Terfyn Gwariant Adrannol leihau gymaint â £715 miliwn rhwng 2009-10 a 2013-14 yn ôl prisiau 2009-10 - sydd gyfwerth â lleihad o 39.2% mewn termau real.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn Abertawe. (WAQ56381) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant***

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2009, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd yn 2010. Ar 12 Mai 2010, cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflenwi er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt am gyfnod o dri mis.

Yn ystod cyfnod tri mis yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru. Mynychwyd y rhain gan gynrychiolwyr o awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r sector gwirfoddol - gan gynnwys cynrychiolwyr o Abertawe. Yn ogystal â'r digwyddiadau

ymgynghori, rydym wedi cael dros 160 o ymatebion ymgynghori, gan gynnwys dau o Awdurdod Lleol Abertawe. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion hyn, gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r Strategaeth Tlodi Plant a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Defnyddir data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog i amcangyfrif nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Nid yw data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gael ar lefel awdurdod lleol. Drwy ddefnyddio dangosydd procsi (nifer y plant mewn cartrefi heb waith), roedd 24.8% o blant Abertawe mewn cartrefi heb waith (Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2008)

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu, a'r pwerau sydd ar gael iddi, i helpu i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn nodi tri amcan strategol newydd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Y rhain yw:

1) Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi heb waith.

2) Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel er mwyn iddynt gael cyflogaeth â thâl da.

3) Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran canlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Drwy gael y tri Amcan Strategol hyn bwriadwn fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd incwm isel â phlant ym mhob rhan o Gymru, a sicrhau bod polisïau, adnoddau a gwasanaethau ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn anelu at wella eu canlyniadau a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn ymateb i dystiolaeth gref sy'n dangos mai cyflogaeth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Wrth wneud hyn byddwn yn hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cyflogaeth â thâl i deuluoedd â phlant (gan gynnwys cyflwyno systemau cymorth megis gofal plant priodol o safon uchel a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni i gael cyflogaeth â thâl).

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog myfyrwyr i ddilyn prentisiaethau modern yng Nghymru. (WAQ56387)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn nodi ein strategaeth i adeiladu ar lwyddiant y rhaglen brentisiaeth i bob oed ac ehangu cyfleoedd, yn enwedig i bobl ifanc, i ddarparu cyfle o safon i ddatblygu dysgu pellach a sgiliau uwch i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol a'r coleg. Rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith i annog mwy o gyfranogi mewn prentisiaethau:

Bydd holl bobl ifanc Cymru yn cael gwybodaeth am Brentisiaethau pan fyddant yn dewis opsiynau yn 14 ac 16 oed drwy Ddewisiadau Dysgu. Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn rhoi cyngor diduedd i bobl ifanc ac yn darparu cymorth i'w helpu i gael prentisiaethau. Er mwyn adeiladu ar hyn rydym yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu Gwasanaeth Paru Prentisiaeth fel rhan o wasanaeth Gyrfa Cymru ar-lein. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i gael gwybod am gyfleoedd prentisiaeth ar-lein ac i wneud cais amdanynt, a chael gwybodaeth am brentisiaethau pan fyddant yn dewis opsiynau. Lansiwyd y gwasanaeth paru peilot yng Ngorllewin Cymru ym mis Gorffennaf.

Sefydlwyd Uned Brentistiaeth bwrpasol newydd i gydlynu a hyrwyddo prentisiaethau yng Nghymru yn well. Mae'r Uned wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2009 ac mae'n gweithredu fel pwynt cydgysylltu ar gyfer mentrau a luniwyd i ysgogi cyflogwyr i gymryd mwy o ran yn y prentisiaethau. Mae'n gweithio gyda phartneriaid lleol, Cynghorau Sgiliau Sector a Gyrfa Cymru i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogi ac mae'n cefnogi gwaith ymgysylltu â chyflogwyr.

Mae'r Uned Brentisiaeth yn datblygu dwy fenter fawr a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn sicrhau y bydd hyfforddiant prentisiaeth yn parhau yn ystod y dirywiad economaidd:
Mae'r Rhaglen Llwybrau i Brentisiaeth yn darparu llwybr hyblyg i bobl ifanc gael y wybodaeth sylfaenol a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gwblhau fframwaith llawn y brentisiaeth yn llwyddiannus. Bydd unigolion yn treulio hyd at flwyddyn ar raglen hyfforddi cyn prentisiaeth amser llawn, ddwys a nodir gan y Cynghorau Sgiliau Sector penodol. Mae cymorth ar gael i hyd at 2000 o ddysgwyr ar y rhaglen yn ystod 2010-11.
Mae'r Rhaglen Recriwtiaid Newydd yn cefnogi cyflogwyr sy'n cynnig rhaglenni prentisiaeth o safon uchel i recriwtio a hyfforddi mwy o brentisiaid ifanc. Cefnogir tua 1000 o ddysgwyr drwy'r cynllun hwn yn 2010.
Er mwyn creu mwy o gyfleoedd prentisiaethau â chyflogwyr bach a chanolig rydym ar hyn o bryd yn treialu dau fodel prentisiaeth a rennir ym maes adeiladu a pheirianneg. Mae 119 o brentisiaid yn cymryd rhan mewn treialon a byddwn yn gwahodd darparwyr i ddatblygu modelau tebyg pan fyddwn yn dyfarnu contractau darparu prentisiaethau o 2011.
Mewn partneriaeth â Cynghorau Sgiliau Sector a rhwydweithiau dysgu 14-19 rydym wedi datblygu cynlluniau peilot. Llwybrau Dysgu Seiliedig ar Waith mewn ysgolion. Mae'r rhain yn galluogi myfyrwyr yng nghyfnod allweddol 4 i gyfuno dysgu yn yr ysgol ac yn y coleg â dysgu galwedigaethol yn y gweithle a all fod yn gam ymlaen at hyfforddiant prentisiaeth.
Rydym hefyd yn anelu at greu mwy o gyfleoedd datblygu o brentisiaeth i addysg uwch a hyfforddiant sgiliau ac rydym yn annog Cynghorau Sgiliau Sector a darparwyr dysgu i ddatblygu rhagor o gyfleoedd ar gyfer Prentisiaethau Lefel Uwch.
Drwy'r mentrau hyn, a'n hymgyrch gynyddol i godi safonau ansawdd o ran datblygu a darparu prentisiaethau, rydym yn sicrhau bod prentisiaethau'n cadw eu statws fel ein rhaglen sgiliau flaenllaw sy'n darparu llwybr o safon uchel i gymwysterau a sgiliau yn seiliedig ar waith a werthfawrogir gan gyflogwyr a myfyrwyr fel ei gilydd.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ag undebau myfyrwyr yng Nghymru gan ystyried y broses glirio bresennol a ragwelir. (WAQ56388)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae pob sefydliad addysg uwch yn y DU yn gorff ymreolaethol â chyfrifoldeb am ei faterion academaidd a gweinyddol ei hun, gan gynnwys eu prosesau derbyn. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bŵer i ymyrryd yn y broses hon. Fodd bynnag, rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â Llywydd a swyddogion UCM Cymru i drafod materion sy'n cael effaith ar brofiad myfyrwyr o addysg uwch yng Nghymru.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau diweddaraf y mae wedi’u wrth ymateb i’r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Ddarpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach. (WAQ56389)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Cyflwynais fy ymateb yn y cyfarfod llawn ar 14 Gorffennaf.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu dysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. (WAQ56390)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae dysgu iaith dramor yn sgil bywyd ac mae'n ofynnol i bob disgybl astudio iaith dramor yn ystod tair blynedd gyntaf addysg uwchradd. At hynny, cafodd iaith dramor ei chynnwys yn y pum maes dysgu penodol a fydd ar gael yn y cwricwlwm lleol sy'n sail i Lwybrau Dysgu 14-19. Rwyf wedi sicrhau bod arian ar gael i CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, i weithio gydag ysgolion i wella safon y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cyngor a datblygiad proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd. Mae CILT Cymru hefyd yn gweithio gydag ysgolion cynradd sydd eisoes yn cynnig iaith dramor er mwyn canolbwyntio ar feithrin partneriaethau a fydd yn sicrhau parhad o ran dysgu i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd.
Ym mis Gorffennaf cyhoeddais gynllun gweithredu, Sicrhau bod Ieithoedd yn Cyfrif, sy'n nodi gwaith pellach i gefnogi addysgu a hyrwyddo ieithoedd tramor. Caiff sylw penodol ei roi i ehangu ystod y cymwysterau a gynigir i fyfyrwyr er mwyn gwella eu sgiliau neu er mwyn dysgu iaith dramor arall fel rhan o'u Llwybrau Dysgu 14-19. Ceir copi o'r cynllun gweithredu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog asesiad o'r strategaeth Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif. (WAQ56391)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Sicrhau bod Ieithoedd yn Cyfrif, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd i wella addysgu a hyrwyddo ieithoedd tramor. Mae'n adeiladu ar y safbwyntiau a gofnodwyd gan bartneriaid ledled Cymru mewn ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn narpariaeth ieithoedd modern.
Mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn nhair blynedd gyntaf addysg uwchradd ac ehangu'r opsiynau a gynigir i fyfyrwyr i wella eu sgiliau neu ddysgu iaith newydd fel rhan o'u Llwybrau Dysgu 14-19. Anelir y cynllun, felly, yn bennaf at ymarferwyr ac mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio gyda CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, a phartneriaid ledled Cymru i ddatblygu a hyrwyddo dysgu ieithoedd tramor. Ceir copi o'r cynllun ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn Abertawe. (WAQ56396) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant***

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2009, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd yn 2010. Ar 12 Mai 2010, cyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflenwi er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt am gyfnod o dri mis.

Yn ystod cyfnod tri mis yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ledled Cymru. Mynychwyd y rhain gan gynrychiolwyr o awdurdodau lleol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r sector gwirfoddol - gan gynnwys cynrychiolwyr o Abertawe. Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgynghori, rydym wedi cael dros 160 o ymatebion ymgynghori, gan gynnwys dau o Awdurdod Lleol Abertawe. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion hyn, gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r Strategaeth Tlodi Plant a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Defnyddir data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog i amcangyfrif nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Nid yw data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gael ar lefel awdurdod lleol. Drwy ddefnyddio dangosydd procsi (nifer y plant mewn cartrefi heb waith), roedd 24.8% o blant Abertawe mewn cartrefi heb waith (Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2008)

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu, a'r pwerau sydd ar gael iddi, i helpu i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn nodi tri amcan strategol newydd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Y rhain yw:

1) Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi heb waith.

2) Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel er mwyn iddynt gael cyflogaeth â thâl da.

3) Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran canlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Drwy gael y tri Amcan Strategol hyn bwriadwn fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd incwm isel â phlant ym mhob rhan o Gymru, a sicrhau bod polisïau, adnoddau a gwasanaethau ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn anelu at wella eu canlyniadau a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn ymateb i dystiolaeth gref sy'n dangos mai cyflogaeth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy allan o dlodi. Wrth wneud hyn byddwn yn hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cyflogaeth â thâl i deuluoedd â phlant (gan gynnwys cyflwyno systemau cymorth megis gofal plant priodol o safon uchel a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar rieni i gael cyflogaeth â thâl).

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A fydd oedi cyn darparu cyllid i gam sylfaenol prosiect Addysg Y Gweithfeydd yng Nglynebwy ac, os felly, pa mor hir. (WAQ56399)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

In answer to your question, Blaenau Gwent County Borough Council with the University of Wales Newport and Coleg Gwent wish to re-arrange their educational provision in Ebbw Vale and across the rest of the County. This will be centred around a programme of new building on the old steel works site in Ebbw Vale known as 'The Learning Works'. No delays are envisaged with the primary phase of the 'Learning Works'. It should be noted that there are some issues with the funding from WEFO which are expected to be resolved shortly but these will not affect the primary phase in any case.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Gan gyfeirio at gyfraniad £7.5m Llywodraeth Cynulliad Cymru at y rhaglen ymchwil adenydd cyfansawdd dan arweiniad Airbus, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a gafodd yr holl daliadau i Airbus eu gwneud yn brydlon ac a oedd unrhyw faterion wedi codi o'r rhaglen yng nghyswllt faint o ymchwil a oedd yn cael ei wneud yng Nghymru mewn gwirionedd. (WAQ56402)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Gwnaed taliadau i Airbus yn unol â'r llythyr cynnig. Er y cafwyd peth oedi, materion technolegol oedd yn bennaf cyfrifol am hyn, sydd bellach wedi'u datrys er boddhad y ddau barti.
O ran cyfran yr ymchwil a wnaed yng Nghymru, mae Airbus a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg wedi datrys nifer o faterion ar y cyd. Bydd y prosiect yn parhau i gael ei fonitro'n agos i sicrhau y caiff yr holl ymchwil y cytunwyd arni ei chyflawni yng Nghymru.
Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu er boddhad y Bwrdd Strategaeth Technoleg a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r cynlluniau seddi ar gyfer ailwampio fflyd Dosbarth 148 Trenau Arriva Cymru. (WAQ56408)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mae'r cynlluniau seddi ar gyfer adnewyddu fflyd Dosbarth 158 Trenau Arriva Cymru bellach ar gael. Mae copi ohonynt wedi'i atodi er gwybodaeth.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru yn sgil yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog i roi diwedd ar yr hawl i sicrhau tenantiaethau ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol. (WAQ56397) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Daw eich cwestiwn yn sgîl cyhoeddiad Prif Weinidog y DU, David Cameron, ei fod am edrych ar system fwy hyblyg o ddeiliadaeth ar gyfer tenantiaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y byddai tenantiaethau cyfnod penodol yn bosibl ar gyfer tenantiaid newydd tai cymdeithasol.

Datganolwyd y cyfrifoldeb am ddeiliadaeth tai yn llawn i Gymru ac felly mater i Lywodraeth Cymru yw unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â chyfeiriad tai cymdeithasol yn y dyfodol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid diogelwch deiliadaeth ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol Cymru a byddai'n rhaid ymgynghori cyn newid unrhyw bolisi yn y dyfodol.

Fel rhan o Gytundeb Cymru'n Un mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i dai fforddiadwy. Eisoes rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran cyflawni ein targed o 6,500 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Fel rydych yn ymwybodol mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ennill pwerau newydd dros dai yng Nghymru drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ddiweddar. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi Mesur Tai a fydd yn caniatáu i ni gymryd camau gweithredu pellach i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy mewn cymunedau ledled Cymru.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Faint o bobl ddigartref sydd yng Nghymru ac o'r rhain, a wnaiff y Gweinidog fanylu faint sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. (WAQ56398) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai Ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** Mae ffigurau a gesglir ar ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag aelwydydd yn hytrach nag unigolion. Bydd Awdurdod Lleol yn derbyn bod aelwyd yn statudol ddigartref os yw'n gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, ac yn syrthio i gategori angen blaenoriaethol diffiniedig.
Mae'r ffigurau diweddaraf a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2010. Derbyniodd yr Awdurdodau Lleol fod 1,468 o aelwydydd yn ddigartref ac felly roedd prif ddyletswydd statudol arnynt i'w hailgartrefu.
O'r rhain, nodwyd bod angen blaenoriaethol gan bedair aelwyd o ganlyniad i adael y lluoedd arfog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi cynhyrchu atebion ynni adnewyddadwy morol gan gynnwys a yw hi wedi ymgynghori â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, er enghraifft, i drafod ffyrdd o harneisio ynni'r llanw yng Nghymru. (WAQ56405)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddais Ddatganiad Polisi ar Ynni Morol yng Nghymru, a amlinellodd y cymorth lefel uchel ar gyfer datblygu ynni morol gan osod y fframwaith strategol ar gyfer datblygu sector ynni morol gref yng Nghymru, a fyddai nid yn unig yn gwasanaethu anghenion Cymru a phrosiectau yng ngweddill y DU, ond hefyd yn manteisio ar y nifer cynyddol o gyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael.

Mae'r Datganiad Ynni Carbon Isel, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn amcangyfrif y gallai Cymru gynhyrchu ddwywaith cymaint o drydan o ffynonellau adnewyddadwy ag a ddefnyddiwn ar hyn o bryd erbyn 2025 ac mae'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd er mwyn gwneud Cymru yn economi carbon isel. Mae ein hadnodd tonau a ffrwd llanw o amgylch ein harfordir ymhlith y gorau yn y DU, ac iddo botensial amcangyfrifedig o tua 40GW. Ein targed ar hyn o bryd ar gyfer technolegau tonau a ffrwd llanw yw dal 10% o'r ynni amcangyfrifedig posibl (4GW) erbyn 2025.
Mae gwaith yn parhau, ar y cyd â'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd a Southwest RDA ar astudiaeth ddichonoldeb ddwy flynedd ar gostau a manteision dal ynni llanw anferth Aber Hafren. Ariannwyd astudiaeth bellach ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad, SWRDA a Defra ynghylch datblygu cynlluniau arloesol a all gael llai o effaith amgylcheddol. Rydym yn rhagweld y caiff canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni ochr yn ochr â chanlyniadau'r astudiaeth o dechnolegau embryonig. Mae'n bosibl y gellid defnyddio'r technolegau sy'n datblygu i harnesu'r adnodd ynni llanw ardderchog mewn ardaloedd eraill o amgylch ein harfordir, yn ogystal ag yn Aber Hafren.

Mae cam terfynol Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy Morol Cymru yn agosáu a fydd yn helpu i ddiffinio ardaloedd posibl o adnoddau y gellir ymelwa arnynt yn fasnachol, gan ddarparu adnodd rheoli i'r llywodraeth a sail dystiolaeth i ddatblygwyr. Mae hwn yn ddarn arloesol o waith a fydd yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol tonau a llanw ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ym mis Mehefin cyfarfûm â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd i drafod ystod eang o faterion yn ymwneud ag ynni gan gynnwys gallu Cymru i gyfrannu at dargedau newid yn yr hinsawdd a throsglwyddo’r caniatadau ynni.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Defnyddio Ynni Adnewyddadwy yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Ystâd y Goron, rheoleiddwyr ETI, a datblygwyr technoleg ac academyddion drwy fforymau gwahanol er mwyn sicrhau y ceir y fframwaith cywir i gyflawni ein dyheadau morol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** O ba flwyddyn y daw'r ffigurau diweddaraf ynghylch nifer yr aelwydydd/pobl mewn tlodi tanwydd yng Nghymru ac a ddefnyddiwyd y ffigurau hyn i gyfrannu at y Strategaeth Tlodi Tanwydd, ac, os nad, o ba flwyddyn y daw'r ffigurau a ddefnyddiwyd. (WAQ56407)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Arolwg Byw yng Nghymru 2004 sy'n rhoi'r ffigurau diweddaraf am nifer y bobl mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Lluniwyd y data Byw yng Nghymru er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o nifer y bobl mewn tlodi tanwydd yn 2005 a 2006 a defnyddiwyd y ffigurau hyn i lywio'r Strategaeth Tlodi Tanwydd.

Cyhoeddir data o Arolwg Byw yng Nghymru 2008 yn yr hydref a bydd yn darparu ffigurau mwy diweddar am nifer y bobl mewn Tlodi Tanwydd yng Nghymru. Caiff goblygiadau'r data newydd hwn ar ein Strategaeth Tlodi Tanwydd eu hystyried yn ofalus.

Fel rhan o'n Strategaeth Tlodi Tanwydd byddwn yn adolygu sut y gallwn gael data gwella a mwy rheolaidd ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn y dyfodol.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb 1286 Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, pa brosiectau Tai Gwledig a Galluogwyr y mae'r gyllideb wedi cael ei gwario arnynt, a faint sydd wedi mynd i'r gronfa "Tir ar gyfer Pobl". (WAQ56410) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Yn 2008 crëwyd y Gronfa Datblygu Tai Gwledig, gan ddefnyddio £100k o Linell Wariant yn y Gyllideb Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (1286), yn ogystal â £100k arall o Linell Wariant yn y Gyllideb Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (1220) er mwyn darparu ffocws cliriach ar gyflawni'r ymrwymiad i hyrwyddo'r gwaith o ehangu'r Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru yn ogystal â darparu llwyfan lle y cyflenwir rhwydwaith estynedig o Swyddogion Galluogi Tai Gwledig, y bydd y naill ddarpariaeth a'r llall yn helpu i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy yng Nghymru wledig.

Defnyddir £50k y flwyddyn o gyllideb flynyddol y Gronfa Datblygu Tai Gwledig o £200k i ariannu 'Land for People' sy'n hyrwyddo ymddiriedolaethau tir cymunedol yng Nghymru.

Defnyddir y £150k y flwyddyn sy'n weddill i ariannu'n rhannol y deg swyddog galluogi tai gwledig sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Nghymru, sydd â'r dasg o weithio gyda chymunedau gwledig i ddod o hyd i atebion ymarferol er mwyn diwallu eu hanghenion tai fforddiadwy. Tua thraean o gyfanswm costau'r prosiectau yw'r arian hwn, ac mae awdurdodau lleol, Cymdeithasau Tai a, lle y bo'n briodol, Barciau Cenedlaethol yn cyfrannu'n ariannol i dalu costau prosiectau Swyddog Galluogi Tai Gwledig unigol sy'n weddill.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb 1220 a 1221 Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig) faint o arian sy'n cael ei wario ar "ddatblygu ymddiriedolaethau tir cymunedol" a beth yn union mae'r arian yn cael ei wario arno. (WAQ56411) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** J Sefydliad di-elw yw Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol y mae ei offeryn llywodraethu yn caniatáu i'r sefydliad ddarparu a rheoli tai fforddiadwy neu gyfleusterau eraill er budd y gymuned.

Yn 2008 crëwyd y Gronfa Datblygu Tai Gwledig, gan ddefnyddio £100k o Linell Wariant yn y Gyllideb Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (1286), yn ogystal â £100k arall o Linell Wariant yn y Gyllideb Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (1220) er mwyn darparu ffocws clir ar gyflawni'r ymrwymiad i hyrwyddo'r gwaith o ehangu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru yn ogystal â darparu llwyfan lle y cyflenwir rhwydwaith estynedig o Swyddogion Galluogi Tai Gwledig, y mae'r naill ddarpariaeth a'r llall yn helpu i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy yng Nghymru wledig.

Defnyddir £50k y flwyddyn o gyllideb flynyddol y Gronfa Datblygu Tai Gwledigo £200k i ariannu 'Land for People'.  Cwmni di-elw ag amcanion elusennol yw Land for People a ariennir er mwyn codi proffil Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru a chynorthwyo cymunedau unigol sydd â diddordeb yn yr ymagwedd hon at dai fforddiadwy.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Yn y Maes Rhaglen Gwariant Tai 'Cynyddu'r dewis o'r cyflenwad o dai', pam oedd y Llinell Wariant yn y Gyllideb 'Rheoli Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd' wedi codi o

£250,000 yn 2009/10 i £465,000 yn 2010/11 a beth gafodd ei wario arno neu a gafodd ei wario ar yr hyn y bwriadwyd ei wario arno. (WAQ56413) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** Disgwylir i'r gyllideb Hybu a Chyhoeddusrwydd Rheoli (Llinell Wariant yn y Gyllideb 1180) o £465k gael ei symud i Brif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu fel Cyllideb Cost Refeniw Adrannol ac ni chaiff ei defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Dai yn 2010/11.

Ffurfiwyd y gyllideb hon mewn gwirionedd drwy symud cyllideb £465k o gyllideb Trosglwyddo Stoc / Annog Cymunedau i Helpu'i Gilydd (Llinell Wariant yn Gyllideb 1162) a oedd yn £750k cyn hyn, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r swyddogaeth Reoleiddio sydd wedi'i hariannu drwy gynyddu cyllideb Cost Refeniw Adrannol. Felly clustnodwyd y gyllideb hon o £465k i'w throsglwyddo allan o Dai yn ystod y gyllideb atodol nesaf i'r gyllideb Cost Refeniw Adrannol uchod.
Symudwyd y gyllideb £250k yn 2009/10 a oedd yn rhan o gyllideb wreiddiol Hybu a Chyhoeddusrwydd Rheoli mewn gwirionedd i gyllideb newydd "Rheoli a Chyngor" (Llinell Wariant yn y Gyllideb 1181) a chynhaliwyd y lefel ariannu hon, er i'r gyllideb gael ei lleihau i £246k oherwydd Ymarfer Dyrannu Adnoddau 2009/10.

Defnyddir y gyllideb hon ar gyfer nifer o swyddogaethau rheoli tai megis dyfarniadau rheoli tai, marchnata a chyhoeddiadau, cefnogi'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, cynllun rhyddfreinio lesddeiliad, prisiadau, costau adolygu Essex, Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai ac adolygiadau Rhent.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** O ba Linell Wariant yn y Gyllideb y mae'r £500,000 i helpu i gefnogi Prynwyr Tro Cyntaf yn dod ohoni a beth mae'r grantiau'n cael eu defnyddio ar eu cyfer, neu beth yw eu bwriad. (WAQ56414) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** Darparodd Llinell Wariant yn y Gyllideb 1004 (Cymorth Ariannol i Brynwyr am y Tro Cyntaf) help i brynwyr am y tro cyntaf â chost effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi. O ganlyniad i lai o alw am y Grant, ynghyd â'r sefyllfa economaidd yn newid, dargyfeiriwyd y gyllideb hon i'r Cynllun Achub Morgeisi yn 2010/11. Gwnaed y penderfyniad hwn â chytundeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** Sut y caiff gwybodaeth archwilio ac arolygu Cymdeithasau Tai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei rhannu a'i defnyddio gydag awdurdodau lleol, os o gwbl. (WAQ56417) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** O ganlyniad i Adolygiad Essex o Dai Fforddiadwy yng Nghymru, caiff fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer Cymdeithasau Tai ei roi ar waith, a fydd yn weithredol o'r flwyddyn ariannol hon. Nodweddir y fframwaith newydd gan angen i gymdeithasau gynnal hunanasesiad cadarn, sy'n seiliedig ar drefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a darparu gwasanaethau.

Mae'r hunanasesu'n seiliedig ar gyfres o safonau perfformiad tai â ffocws cryf ar ganlyniadau. Caiff asesiad rheoleiddiol cymesur, blynyddol, sy'n seiliedig ar risg ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru fel y rheoleiddiwr statudol. Caiff adroddiad rheoleiddio blynyddol ei gyhoeddi gan gynnwys, am y tro cyntaf, dyfarniad cyhoeddus ffurfiol ar hyfywedd ariannol y gymdeithas. Sefydlwyd Bwrdd Rheoleiddio newydd i oruchwylio'r swyddogaeth reoleiddio. At hynny, bydd y Mesur Tai arfaethedig hefyd yn darparu ystod ehangach o bwerau ymyrryd i Lywodraeth Cymru lle y ceir enghreifftiau o fethiant o ran perfformiad neu gyflawniad.

Bwriedir cyhoeddi adroddiad rheoleiddio blynyddol, gan gynnwys, am y tro cyntaf, ddyfarniad cyhoeddus ffurfiol ar hyfywedd ariannol pob Cymdeithas Dai. Bydd hwn ar gael i'r Awdurdodau Lleol perthnasol. At hynny bydd gan staff rheoleiddio gydberthynas weithio agos ag Awdurdodau Lleol yn rhinwedd eu swyddogaeth fel swyddogion galluogi tai strategol er mwyn helpu a llywio'r asesiadau rheoliadol yn y Cymdeithasau Tai.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa mor aml mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (neu gyrff eraill) yn monitro, yn archwilio neu'n arolygu Cymdeithasau Tai, beth yw'r weithdrefn ar gyfer hyn, ac a allech ddarparu dadansoddiad o'r gost, er enghraifft, ar gyfer ymgynghorwyr, treuliau ayb. (WAQ56418) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 27 Medi 2010***

**Jocelyn Davies:** O ganlyniad i Adolygiad Essex o Dai Fforddiadwy yng Nghymru, caiff fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer Cymdeithasau Tai ei roi ar waith, a fydd yn weithredol o'r flwyddyn ariannol hon. Nodweddir y fframwaith newydd gan angen i gymdeithasau gynnal hunanasesiad cadarn, sy'n seiliedig ar drefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a darparu gwasanaethau.

Mae'r hunanasesu'n seiliedig ar gyfres o safonau perfformiad tai â ffocws cryf ar ganlyniadau. Caiff asesiad rheoleiddiol cymesur, blynyddol, sy'n seiliedig ar risg ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru fel y rheoleiddiwr statudol. Caiff adroddiad rheoleiddio blynyddol ei gyhoeddi gan gynnwys, am y tro cyntaf, ddyfarniad cyhoeddus ffurfiol ar hyfywedd ariannol y gymdeithas. Sefydlwyd Bwrdd Rheoleiddio newydd i oruchwylio'r swyddogaeth reoleiddio. At hynny, bydd y Mesur Tai arfaethedig hefyd yn darparu ystod ehangach o bwerau ymyrryd i Lywodraeth Cymru lle y ceir enghreifftiau o fethiant o ran perfformiad neu gyflawniad.

Cynhelir y gwaith rheoleiddio gan dîm yng Nghyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb rhaglen fach ar gael pe byddai amgylchiadau'n codi lle mae angen i arlolygiadau penodol gael eu comisiynu gan y Rheoleiddiwr. Nid yw'r angen hwn wedi codi hyd yma.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y ganran sydd wedi cael dos 1af ac 2il ddos y brechlyn MMR yn ôl ardal awdurdod lleol. (WAQ56373)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi.

**Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer y cleifion orthopedig sydd wedi cael eu trin o fewn y targed o 26 wythnos rhwng cyfeirio a thrin a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'r nifer a gafodd eu trin y tu allan i'r cyfnod targed, ar gyfer y chwe mis diwethaf ac wedi'i ddadansoddi fesul Bwrdd Iechyd Lleol. (WAQ56374)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi.

**David Melding (Canol De Cymru):** Ar hyn o bryd faint o bobl yng Nghymru sydd dan Orchmynion Triniaeth Gymunedol. (WAQ56375)

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o Orchmynion Triniaeth Gymunedol sydd wedi cael eu cwblhau'n llwyr. (WAQ56376)

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o Orchmynion Triniaeth Gymunedol a ddaeth i ben wrth i glaf gael ei dderbyn i ysbyty. (WAQ56377)

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o Orchmynion Triniaeth Gymunedol a oedd yn cynnwys claf yn cael ei alw'n ôl i ysbyty am driniaeth dros dro. (WAQ56378)

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o Orchmynion Triniaeth Gymunedol (dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) sydd wedi cael eu cyhoeddi yng Nghymru er 2008. (WAQ56379)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth am Orchmynion Triniaeth Gymunedol ar gael yn y fformat y gofynnwyd amdano gennych ond mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael diagnosis o Glefyd McArdle. (WAQ56380)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio ac ariannu'r rhan fwyaf o wasanaethau gofal iechyd i gleifion yn eu hardaloedd. Yn achos rhai cyflyrau prin iawn, megis Clefyd McArdle, neu gyflyrau sy'n gofyn am ofal cymhleth neu arbenigol iawn, mae'n bosibl y byddant yn cynllunio ac yn ariannu gwasanaethau ar sail Cymru gyfan drwy eu gwaith ar y cyd ar Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC).

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Faint o Seiciatryddion Ymgynghorol neu Seicolegwyr Ymgynghorol yng Nghymru sydd â diddordeb arbenigol mewn trin Anhwylder Straen Wedi Trawma sy'n ymwneud â Brwydro. (WAQ56394)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Faint o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd wedi cael diagnosis penodol o Anhwylder Straen Wedi Trawma. (WAQ56395)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint o Fyrddau Iechyd Lleol sy'n defnyddio'r rhaglen 'script switch', ac a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Byrddau Iechyd Lleol i ddefnyddio'r rhaglen. (WAQ56400)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa elfennau o'r cynnydd o £20.7 miliwn a amcangyfrifir a gaiff GIG Cymru oherwydd y cynnydd mewn TAW y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu hadennill ac a wnaiff y Gweinidog hefyd ddarparu amcangyfrif sydd wedi'i ddadansoddi rhwng gwariant cyfalaf a refeniw. (WAQ56401)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae sefydliadau unigol y GIG yn gyfrifol am benderfynu ar driniaeth briodol ar gyfer TAW. Darparwyd dadansoddiad o effaith y cynnydd mewn TAW rhwng cyfalaf a refeniw yn ateb WAQ56294.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau cyfran y practisau meddygon teulu yng Nghymru sydd bellach yn cynnig gwasanaethau trefnu apwyntiad a phresgripsiwn ar-lein a phryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y caiff hyn ei gyflwyno yn gynhwysfawr ledled Cymru. (WAQ56404)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Bydd y rhaglen genedlaethol yn mynd rhagddi'n fuan a disgwylir i'r mwyafrif o bractisau meddygon teulu gynnig y gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein i'w cleifion erbyn diwedd 2011.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith patentau cyffuriau'n dod i ben dros y pum mlynedd nesaf ar brynu meddyginiaethau yn y GIG. (WAQ56406)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae swyddogion yn monitro'r dyddiadau y daw patentau meddyginiaethau wedi'u brandio i ben yn agos a chaiff effaith y rhain eu monitro fel rhan o'r dadansoddiad parhaus o wariant ar feddyginiaethau.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i neilltuo cyllidebau meddyginiaethau pan fydd amrywiol gyffuriau yn colli eu patent dros y pum mlynedd nesaf. (WAQ56409)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid oes cynlluniau i glustnodi cyllidebau meddyginiaethau o ganlyniad i ddyddiadau patentau meddyginiaethau penodol yn dod i ben.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cost ffioedd archwilio pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. (WAQ56416)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae'r wybodaeth hon ar gael yng nghyfrifon blynyddol cyhoeddedig Byrddau Iechyd Lleol.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Faint o gyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru. (WAQ56392)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd i'r Lleng Frenhinol Brydeinig yn 2005, roedd 4.8 miliwn o gyn-filwyr yn y DU, a 3.63 miliwn arall o oedolion sy'n ddibynyddion. Cyfanswm y cyn-aelodau o'r lluoedd arfog felly oedd 8.43 miliwn. Yn ôl yr arolwg, roedd tua phump y cant ohonynt yn byw yng Nghymru.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Faint o garcharorion yng ngharchardai Cymru sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. (WAQ56393)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Carchardai wedi'i ddatganoli ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw data ar nifer y cyn-filwyr mewn carchardai yng Nghymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr adolygiad sydd wedi bod yn cael ei gynnal. (WAQ56403)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i'r afael ag amddifadedd lluosog mewn dros 180 o ardaloedd yng Nghymru a bwriedir i hyn barhau tan fis Mawrth 2012, pan fydd cyfnod y rhaglen bresennol yn dod i ben.

Rwyf am sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu buddsoddiad a chymorth effeithiol i bobl sy'n byw yn ardaloedd o amddifadedd mwyaf Cymru. Felly, ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn edrych ar ystod o dystiolaeth, o'r rhaglen bresennol ac yn ehangach, er mwyn ystyried y dyfodol ar ôl mis Mawrth 2012. Disgwyliaf gael mwy o eglurder ar y mater hwn yn ddiweddarach eleni.

Rhan o'r sail dystiolaeth hon yw gwerthuso parhaus Canlyniadau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers 2001 a Phrosesau ar gyfer y cam presennol. Comisiynwyd y gwerthusiadau gan fy swyddogion ym mis Mai 2010 a chânt eu cynnal gan ddau o ymgynghorwyr allanol - Amion ac Old Bell 3 - sy'n cydweithio.

Disgwylir i'r gwerthuswyr gyflwyno eu hadroddiad terfynol ym mis Mai 2011, ac mae'n debygol y bydd rhai canfyddiadau interim cynnar ar gael ym mis Tachwedd 2010.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu costau archwiliadau allanol pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. (WAQ56412)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am gost archwiliadau allanol pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ganolog. Byddai'n rhaid i bob awdurdod ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

## *Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu'r broses mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei defnyddio i adnabod y potensial ar gyfer pwerau fframwaith mewn Deddfau Seneddol a negodi eu cynnwys. (WAQ56415)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I would like to inform you that the process by which the Assembly Government requests Framework powers for Wales in UK Bills is undertaken through negotiations by officials and Ministers with their counterparts in accordance with the Devolution Guidance Note 9 and the guidance published on the legislation pages of the Welsh Assembly Government website.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw'r ffaith bod rhai meysydd polisi wedi'u heithrio dan Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod unrhyw rwystrau cyfreithiol i ddatganoli pwerau deddfwriaethol yng nghwmpas y meysydd polisi hynny. (WAQ56419)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I would like to inform you that the Government of Wales Act 2006 allows for future amendments to Schedule 7, by Order in Council under section 109 of the Act. Such an Order in Council could for example, remove or amend existing exceptions to the Assembly's legislative competence, or add further subject.